

**Pecyn
creadigol**

**Saer
y Sêr**



FRÂN WEN

www.franwen.com



Ffion Haf



Rydym yn hynod o falch o'r cyfle i lwyfannu cynhyrchiad Saer y Sêr i deithio'n genedlaethol.

Braint o'r mwyaf oedd cael cydweithio gyda artistiaid talentog ar sioe mor hudolus.

Dyma theatr ar ei orau – cast talentog, stori syml ond oesol, set bendigedig a cherddoriaeth swynol – i gyd yn y Gymraeg!

Mae'r cynhyrchiad hwn yn cynhesu'r galon ac yn brofiad fydd yn aros yn y cof am amser hir iawn.

We are extremely proud to stage our production of Saer y Sêr nationally.

It was an honour to work with an array of artists on such a magical show.

This is theatre at its best – a talented cast, a simple and universal story, a wonderful set and a magical soundtrack – all in the Welsh language!

This production is a heart warming experience that will remain with you for a long time.





Gweithgaredd #1



Troi rhywbeth arferol yn anarferol

*Gall hwn fod yn weithgaredd ysgrifenedig neu'n weithgaredd ymarferol.

Ar y lleuad roedd gan y Saer bethau arferol, ond oherwydd y cyd-destun roeddau nhw'n ymddangos yn anarferol. Er enghraifft, beth oedd pwrpas y wialen bysgota? Defnyddiwch hyn i annog dychymyg y disgyblion.

Dyma dri cham fydd yn eich helpu:

1. GRWPFAU BACH

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach. Yna dewisiwch unrhyw wrthrychau cyfarwydd o'r ystafell ddosbarth a rhoi un i bob grŵp.

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl beth fyddai swyddogaeth y gwrthrych ar y lleuad. Wedi iddyn nhw gael amser i feddwl, gofynnwch iddyn nhw egluro i weddill y dosbarth beth yw sywddogaeth y gwrthrych.

2. DEWIS GWRTHRYCH

Wrth wneud hyn eto, gofynnwch i'r disgyblion fesul grŵp ddewis gwrthrych arall o'r ystafell ddosbarth.

Tro hyn, gall y gwrthrych gael ei ddefnyddio unrhywle, nid dim ond ar y lleuad. Rhwch gyfle iddyn nhw rannu eu syniadau â'r dosbarth eto.

3. DATBLYGU'R GWEITHGAREDDAU

Mae posib datblygu'r weithgaredd yma i greu testun ar gyfer ysgrifennu stori gyda'r dosbarth.

Meddyliwch am y chwe chwestiwn hanfodol:

- Beth yw'r gwrthrych?
- Pam bod y gwrthrych yn anarferol/arbennig?
- Pwy sy'n ei ddefnyddio?
- Pryd mae'n ei ddefnyddio?
- Sut mae'n ei ddefnyddio?
- Ble mae'n ei ddefnyddio?

Drwy ateb y cwestiynau yma gallwch ddatblygu stori am y gwrthrych a'i berchennog.



Gweithgareddau #2

Cyfathrebu

Nid oedd y Saer yn siarad llawer, ond roedd y ddau gymeriad yn cyfathrebu. Sut? Trafodwch ffyrdd amrywiol o gyfathrebu'n ddi-eiriau drwy wneud gwaith ymarferol. Gallwch roi'r disgyblion mewn parau i weithio:

YSTUMIAU

Pan mae Swigen yn gweld y Saer am y tro cynta mae hi'n dweud "Helo! Swigen dwi, pwy wyt ti?" ac yn mynd ato gyda'i llaw allan yn barod i ysgwyd ei law. Sut mae'r disgyblion yn defnyddio ystumiau'n unig pan mae nhw'n cyfarfod ei gilydd?

MYNEGIANT WYNEB

Pan mae'r seren fach ddrwg yn cambihafio, rydym yn gweld ar wyneb y Saer nad ydio'n hapus. Rhowch dasg i'r disgyblion ddewis o restr o emosiynau a mynegi hynny drwy ddefnyddio eu hwynebau yn unig. Gall un o bob pâr wneud un emosiwn a'r llall yn dyfalu pa emosiwn.

O.N. gellir gwneud y gwaith yma gyda drych er mwyn iddynt weld pa siapiau mae eu hwynebau eu hunain yn gallu eu wneud.

CYFLYMDER SYMUDIADAU

Pan mae Swigen a'r Saer yn dechrau chwarae gyda'r ffrwythau, mae nhw'n dechrau yn araf wrth ddyfeisio'r gêm. Yna, wrth ddeall ei gilydd a mwynhau mae'r chwarae'n cyflymu. Beth am i'r disgyblion ddyfeisio gêm syml gyda phêl, heb ddefnyddio geiriau, ydi hi'n haws dechrau'n araf?

PELLTER

Pan mae Swigen a'r Saer yn cyfarfod am y tro cyntaf, nid yw'r Saer mor hyderus â Siwgen. Tydio ddim yn siwr iawn ohoni ac felly'n cadw pellter oddi wrthi. Rhowch sefyllfaoedd actio i'r disgyblion lle mae modd defnyddio pellter neu agosatrwydd. Ystyriwch: ofnus, ansicr, blin, cysuro, cyfeillgar.

Mae modd ystyried Symud a Llonyddwch yn yr ymarferiad yma.

SYMUD A LLONYDDWCH

Pan mae'r Saer yn ceisio achub y seren mae Swigen yn llonydd a'r Saer yn brysus.

EFELYCHU

Mae'r Saer a Swigen yn efelychu ei gilydd sawl gwaith yn y ddrama. Ar y dechrau pan maent yn cyfarfod ei gilydd, mae nhw'n ceisio efelychu ei gilydd drwy eistedd i lawr a sefyll. Yna, yn ystod y ddrama mae Swigen yn ceisio efelychu'r Saer wrth iddo arwain y sêr ac mae'r Saer yn efelychu Swigen wrth addurno'r twmpathau tywod. Anogwch y disgyblion i weithio mewn parau a chopio ei gilydd. Sut mae hyn yn gwenud iddynt deimlo?

DEFNYDD O WRTHRYCHAU

Mae Swigen yn defnyddio sawl gwrthrych yn ystod y ddrama. Mae hi'n defnyddio Bagel er mwyn cael gafael ar y baton. Mae hi'n defnyddio gwrthrychau o'i phoced i addurno'r twmpath tywod. Mae hi'n defnyddio ffrwythau i chwarae a chodi calon y Saer. Ydi'r disgyblion yn gallu defnyddio gwrthrychau i greu stori rhwng dau?



Gweithgareddau #3

Datblygu'r Gymraeg

Astudiwch un o gymeriadau'r ddrama gan ystyried:

- Sut mae'n edrych?
- Beth mae'n wisgo?
- Defnyddiwch eich synhwyrâu – arogl/clyw/blasu/teimlo/gweld?
- Sut mae'n symud?
- Sut mae'n ymateb?
- Beth yw eu gwaith?
- Beth yw eu cefndir?
- Oes ganddo/i rhywbeth doniol neu unigryw amdano/i?

Yna ewch ati i greu eich cymeriad eich hun. Dyma gyfle i ddefnyddio ansoddeiriau a chymhari-aethau i ddisgrifo'r cymeriad yn fanwl.

Wedi i chi greu'ch cymeriad rhwch y cymeriad ym myd y Saer, ar y lleuad. Beth fyddai'n digwydd pe byddai eich cymeriad chi'n cyrraedd yno yn hytrach na Swigen?

GWAITH YSGRIFENEDIG

- Beth am greu holiadur ar gyfer cynnal cyfweiliad â'r Saer. Gellir paratoi nifer o gwestiynau er mwyn darganfod mwy amdano. Yna, gellir dewis un disgybl i esgus bod yn Saer y Sêr ac ateb y cwestiynau. Mae'r gwaith yma yn ymarfer eu sgiliau ysgrifennu, darllen a chyfathrebu ar lafar.
- Beth am greu llythyr gan Swigen i'r Saer yn diolch am yr antur a gafodd yn ei gwmni.
- Neu, beth am greu dyddiadur y Saer. Ar ddiwedd y ddrama pan mae'r Saer yn mynd yn ôl i mewn i'r lleuad, tybed beth fyddai'n ei ysgrifennu yn ei ddyddiadur ar ôl y noson anturus?
- Ailadrodd stori – Beth am ail greu golygfa o'r ddrama? Gellir ei chofio ar lafar, trwy dynnu lluniau, ei chreu'n ymarferol drwy ei hactio, ac i orffen drwy ysgrifennu'r stori neu'r ddeialog.



Gweithgareddau #4

Dablygiad Corfforol

Yn y ddrama mae'r sêr yn mynegi eu hunain drwy gerddoriaeth. Wrth wrando ar y gerddoriaeth sut mae'r disgyblion yn teimlo? Drwy ddefnyddio eu corff i symud, all y disgyblion ddangos sut mae nhw'n teimlo?

Mae modd datblygu'r weithgaredd yma gan ofyn i'r disgyblion greu sŵn neu gerddoriaeth eu hunain i gyd-fynd â lluniau o'r ddrama:

LLUNIAU

- Pen y Saer wedi ymddangos o'r lleuad a Swigen a'i phen i mewn un twll yn gweiddi.
- Swigen yn eistedd wrth fedd y Seren.
- Y ddau yn chwarae gyda'r Grawnffrwyth.

Gweithgareddau #5

Mathemategol / Cysawd yr Haul

Mae'r Saer a Swigen yn chwarae gêm gyda'r ffrwythau, mae'r lleuad yn ymuno yn y gêm gan daflu ffrwythau o wahanol faint allan. All y disgyblion roi trefn ar gasgliad o ffrwythau yn ôl eu maint? Mae modd dysgu enwau'r ffrwythau hefyd.

Yna, wrth astudio Cysawd yr Haul, oes modd dewis ffrwyth i gynrychioli'r haul, lleuad, y Ddaear a'r planedau eraill? Annogwch y plant i ddewis yn ôl maint, e.e. y ffrwyth mwyaf i gynrychioli'r haul.

Yna, ewch i'r neuadd neu'r iard gan osod y plant gyda'r ffrwythau i sefyll yn nhrefn y Cysawd a'u hannog i droelli fel y planedau. E.e. mae'r plentyn gyda ffrwyth yr haul yn sefyll yn y canol yn llonydd. Mae'r plentyn gyda ffrwyth y lleuad yn troelli o amgylch y ddaear tra mae'r ddaear yn troelli o amgylch yr haul.



Anni Llyn

Fy stori i !

Un tro, amser maith yn ôl, erystalwm, ym mhell bell i ffwrdd roedd rhywun yn 'sgwennu stori. Mae 'na rhywun wastad yn 'sgwennu stori. Dim o reidrwydd gyda phapur a phensal nac ar gyfrifiadur. Ond mae 'na straeon yn cael eu creu drwy'r adeg. Straeon gwir, straeon dychmygol, straeon antur, straeon cofio. Ac i bobl fel fi, mae gallu rhwydo stori a chwilio am y ffordd ora o'i rhannu hi'n bleser llwyr.

Mynegi stori yw byrdwn pawb yn y pen draw, boed hynny drwy arlunio, ddawnsio, actio, sgwrsio, neu farddoni. Pan dwi'n cynnal gweithdai Bardd Plant Cymru y peth cynta dwi'n trio'i annog yw rhyddid dychmyg. Dwi'n ceisio dangos iddyn nhw bod creu rhywbeth creadigol yn golygu torri ffiniau a cheisio meddwl am ffordd newydd o fynegi. Yn amlwg, yn fy ngweithdai i dwi'n gwneud hynny drwy ddefnyddio geiriau.

SŴN GEIRIAU

Wrth farddoni, mae'n bwysig fod plant yn clywed sŵn odl, cyflythreniad, rhyddm, acen ayyb. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn clywed sŵn geiriau newydd.

GEIRFA

Mae cael ystod eang o eirfa yn golygu fod ganddoch chi fwy o ddewis wrth geisio mynd ati i fynegi'ch hun. Mae'n bwysig peidio bod ofn defnyddio geiriau dieithr.

DISGRIFIO A CHREU DELWEDDAU

Mae arfau disgrifio (cymharu, delweddu, trosi ayyb) yn cael eu dysgu'n dda yn ein hysgolion ni. Ond mae hi'n bwysig ein bod yn annog y plant i feddwl am gymhariaethau gwreiddiol. E.e. fel arfer, os ydw i'n gofyn wrth ddosbarth orffen y frawddeg "...yn ddu fel..." neu'n "...yn dywyll fel..." yn amlach na pheidio yr ateb dwi'n gael gan bawb ydi "...bol buwch." Sy'n un o'n hidiomau gorau, ond os yw pawb yn y dosbarth yn defnyddio'r idiom yma i ddisgrifio tywyllwch mae hi'n anodd clywed llais unigolyn. Pan dwi'n ymarfer arfau disgrifio fel cymhariaeth, dwi'n mynnu eu bod yn meddwl am ddisgrifiad nad ydw i wedi ei glywed o'r blaen. Coeliwch chi fi, mae gan blant Cymru ddigon o syniadau a dychmyg! Hyd yn oed os ydyn nhw'n meddwl am rhywbeth hollol wallgo mae hi'n haws gweithio efo syniad o'r fath a'i ddatblygu.

Be dwi'n hoffi wneud mewn gweithdai hefyd ydi chwarae. Chwarae gemau odli, chwarae gemau disgrifio,

chwarae gemau rhyddm. Mae bwysig nad ydi plant yn cysylltu "ysgrifennu" gyda dim ond papur, beiro, desg a chadair. Rhan bychan o'r broses ydi hynny. Deuparth gwaith yw ei ddechrau, a dechrau'r broses o ysgrifennu'n greadigol yw edrych, gwranddo, teimlo, blasu, profi a chasglu syniadau. Ac ar ôl 'sgwennu, dwi'n aml yn darllen pethau'n uchel gan gerdded o amgylch y tŷ, nid o reidrwydd yn perfformio i unrhywun, dim ond i fi fy hun!

SAER Y SÊR

Dyma'r tro cyntaf i mi weithio'n broffesiynol ym myd y theatr a dyma'r tro cynta i mi weithio drwy ddyfeisio... (oni bai pan oeddwn i'n fach ac yn gwisgo fyny a chreu drama ar y silff ffenast i fy nheulu, ond stori arall ydi honno!)

Mae'r broses wedi bod yn un arbennig, yn anodd ar brydia, yn gwbl annisgwyl dro arall. Ond dwi'n teimlo ei fod o wedi bod yn broses sydd wedi rhoi dyfnder i'r cynhyrchiad. Roedd gweithio gyda phlant Ysgol Babanod Llanfairfechan yn ysbrydoliaeth perffaith i ddechrau arni. Greddf oedd yn gyrru pawb wrth ddyfeisio ond roedd pawb yn dod o gyfeiriadau gwahanol. Yr actorion yn dyfeisio drwy emosiwn y cymeriad, emosiwn cerddorol y cyfansoddwr, gweledigaeth greadigol-ymarferol dylunwyr set, gwisg a golau, a greddf naturiol Ffion wrth gyfarwyddo i gyfathrebu â'r gynulleidfa, ac ro'n i'n trio cymryd rôl y gynulleidfa a chymryd cam yn ôl i roi persbectif ehangach. Drwy dynnu'r gweledigaethau yma i gyd at ei gilydd i greu un stori, dwi'n teimlo fod y broses wedi rhoi gwreiddiau i'r stori ac wedi ei gwneud yn gadarn.

Mae'r profiad o gyd-ddyfeisio gyda thîm mor greadigol wedi bod yn un gwerthfawr iawn. Mae wedi fy atgoffa fod creadigrwydd yn gallu bodoli ym mhob agwedd a bod na wastad ffordd o ddweud dy stori.

Tîm creadigol



RHODRI SION ydw i a
dwi'n chwarae rhan
cymeriad SAER Y SÊR
yn y sioe.



LEISA MERERID ydw i a
dwi'n chwarae rhan
cymeriad SWIGEN
yn y sioe.

Cyfarwyddwr: Ffion Haf
Dramaturge: Anni Llŷn
Cynllunydd set a gwisgoedd: Gwyn Eiddior
Artist Gweledol: Erin Maddocks
Cynllunydd goleuo: Elanor Higgins
Cyfansoddwr: Osian Gwynedd

Rheolwr llwyfan: Ceridwen Price
Technegydd sain: Lewis Williams
Technegydd goleuo: Meilir Aled Evans
Rheolwr llwyfan cynorthwyol: Simon Thomas
Rheolwr llwyfan cynorthwyol: Morgan Evans




Morgan, Simon, Ceridwen a Meilir



Ffion Haf



Anni Llŷn



Erin Maddocks



Lewis Williams



Gwyn Eiddior



Elanor Higgins

Beth nesaf i Frân Wen?



Dilyn Fi

gan Sarah Argent

Dyddiad: Chwefror 2015

Oedran: 2 - 5 oed

Cast : Elgan Rhys a Cêr Haf

Gwisgoedd a phrops: Erin Maddocks

Cyfarwyddo : Iola Ynyr

Cerddoriaeth: Gruff Ab Arwel

Mae Cai a Nansi'n ffrindiau gorau...gorau un...yn chwerthin llond bol wrth chwarae... un diwrnod daw eliffant mawr i rannu'r hwyl!



FRÂN WEN

THEATR I'R IFANC
SY'N CYFFROI,
HERIO AC YSBRYDOLI.

EXCITING, CHALLENGING
AND INSPIRING THEATRE
FOR THE YOUNG.



post@franwen.com



01248 715 048



www.franwen.com



@cwmnifranwen



Porthaethwy,
Ynys Môn,
Cymru
LL59 5HS



CYNGOR SI
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Sponsored by
The National Lottery



Gofnodd gan
Y Loteri Genedlaethol